# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
# Grant Cymorth Tai

# Cyfeirlyfr Gwasanaethau
# **2024/2025**

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cynnal yn ymwneud â Thai 2024/2025

## Cynnwys


Beth yw'r Grant Cymorth Tai? .... 3
Beth yw Cefnogaeth sy'n gysylltiedig â Thai? .... 3
Sut i wneud Cais? .... 3
Sut i ganfod rhagor .... 3
Cyfeiriadur o Wasanaethau Cynnal yn gysylltiedig â Thai .... 4
Cam-drin Domestig .... 4
Digartrefedd / Perygl o fod yn ddigartref .... 5
Anableddau Dysgu .... 5
Iechyd meddwl .... 6
Materion Troseddu .... 7
Anableddau Corfforol / Nam ar y Synhwyrau .... 7
Materion mewn perthynas â Chamddefnyddio Sylweddau .... 8
Pobl Ifanc Diamddiffyn .... 8
Pobl Hŷn Diamddiffyn .... 10
Cyffredinol .... 11

## Beth yw’r Grant Cymorth Tai?

Mae’r Grant Cymorth Tai yn rhaglen Llywodraeth Cymru sy’n darparu gwasanaethau cynnal yn ymwneud â thai i bobl ddiamddiffyn dros 16 oed. Mae’n eu galluogi i fyw'n annibynnol yn y gymuned ac osgoi'r perygl o fod yn ddigartref.

## Beth yw Cefnogaeth sy'n gysylltiedig â Thai?

Darperir cefnogaeth yn ymwneud â thai i helpu pobl ddiamddiffyn i ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder angenrheidiol i fyw mor annibynnol â phosib. Gall cefnogaeth sy’n gysylltiedig â rhai gynnwys cymorth a chyngor ar:

- Datblygu sgiliau bywyd a domestig.
- Cyllidebu a rheoli arian
- Mynediad i wasanaethau a chyfleoedd eraill
- Sefydlu diogelwch

## Sut i wneud Cais?

Bydd darpariaeth gwasanaethau cynnal sy’n gysylltiedig â thai yn seiliedig ar anghenion a nodwyd neu y cafwyd eu hasesu.

Mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i’r gwasanaethau neu trwy Llwybr Sengl ar SPPathway@conwy.gov.uk

**Gallwch:**

- Gwblhau ffurflen atgyfeirio eich hun a’i dychwelyd i Llwybr Sengl neu gysylltu â’r Darparwyr yn uniongyrchol
- Gofyn i asiantaeth neu sefydliad gwirfoddol sy’n eich helpu ar hyn o bryd i gwblhau atgyfeiriad i Lwybr Sengl ar eich rhan, neu gysylltu â’r Darparwyr yn uniongyrchol
- Gofyn i’ch gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr iechyd proffesiynol gwblhau atgyfeiriad ar eich rhan i Lwybr Sengl, neu gysylltu â’r Darparwyr yn uniongyrchol
- Gofyn i aelod o’ch teulu neu ffrind i gwblhau atgyfeiriad i Lwybr Sengl ar eich rhan, neu gysylltu â’r Darparwyr yn uniongyrchol

## Sut i ganfod rhagor

Am ragor o wybodaeth, ewch i dudalen Grant Cymorth Tai ar Grant Cymorth Tai

Mae ffurflen atgyfeirio hefyd ar gael ar Sut i gael mynediad at Gefnogaeth sy'n ymwneud â Thai

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cynnal yn gysylltiedig â Thai

## Cam-drin Domestig

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cam-drin Domestig Aberconwy** (ADAS) | Lloches a Chefnogaeth yn ôl yr Angen | Darpariaeth lloches i fenywod a'u plant sy'n profi camdriniaeth gorfforol, feddyliol, emosiynol, ariannol neu rywiol. Derbynnir atgyfeiriadau gan unrhyw ffynhonnell ac maent yn cynnig mynediad uniongyrchol brys 24 awr.<br><br>Cymorth yn ôl yr Angen ar gael i ferched, dynion a phlant yn y gymuned leol. Derbynnir atgyfeiriadau gan unrhyw ffynhonnell. |
| **Uned Diogelwch Cam-drin Domestig** | Lloches, Cefnogaeth yn ôl yr Angen, Ymyrraeth mewn Argyfwng | Darpariaeth lloches i fenywod a'u plant sy'n profi camdriniaeth gorfforol, feddyliol, emosiynol, ariannol neu rywiol. Derbynnir atgyfeiriadau gan unrhyw ffynhonnell (dros y ffôn, e-bost neu alw heibio) a gweithredir rota 24 awr i sicrhau mynediad uniongyrchol mewn argyfwng.<br><br>Cefnogaeth ar gael gyda:<br>- Atgyfeiriad i MARAC neu roi mesurau diogelwch perthnasol ar waith.<br>- Cysylltu â Thai, Cyfreithwyr, budd-daliadau a CAB.<br>- Cymorth Tai a chyngor ar ddiogelwch<br>- Mynediad at gyngor cyfreithiol ac edrych ar orchmynion amddiffyn sifil, cefnogaeth mewn llysoedd teulu a throsedd, cefnogaeth gyda materion mewnfudo<br>- Rheoli cyllid, gan gynnwys dyledion/budd-daliadau, cefnogaeth i wella eu hiechyd a'u lles, cefnogaeth rhianta, archwilio cyfleoedd addysg a chyflogaeth, a gweithio gyda phartneriaid megis CAB a'r Ganolfan Waith<br>- Rhaglenni grwpiau therapiwtig a chefnogaeth gyda pherthnasau |

| | | |
|---|---|---|
| **Stori Cymru** | Llety â Chymorth | Darparu tai â chymorth dros dro ar gyfer merched a'u plant sydd wedi profi camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl |

## Digartrefedd / Perygl o fod yn ddigartref

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Sanctuary Trust -** Cornerstones | Llety â Chymorth | Darparu cefnogaeth yn ymwneud â thai i gynorthwyo dynion diamddiffyn i fynd i'r afael â'r materion sydd wedi achosi iddynt fod yn ddigartref.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl |
| **Tai Gogledd Cymru** - Noddfa | Llety â Chymorth a llety dilynol | Cymorth yn gysylltiedig â thai mewn Hostel neu lety dilynol ar gyfer pobl sengl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, a chanddynt angen o ran cefnogaeth.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl |
| **Nacro -** Tai yn Gyntaf | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Gwasanaeth cefnogi ar gyfer dynion a merched ag anghenion cymhleth i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol i gynnal tenantiaeth.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl |
| **Stori -** Cymorth Llety Symud Ymlaen | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Darparu cefnogaeth i bobl mewn llety dros dro i symud ymlaen i lety sefydlog mwy cynaliadwy.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau drwy'r Llwybr Sengl. |
| **Cartrefi Conwy** – Cynllun ar Brydles Symud Ymlaen | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Darparu cefnogaeth a chyngor i bobl mewn llety ar brydles i symud ymlaen i lety sefydlog mwy cynaliadwy.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau drwy'r Llwybr Sengl. |

## Anableddau Dysgu

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy -**<br><br>**Tîm Anableddau Integredig**<br>(Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol**/**Nam Ar Y Synhwyrau) | | Mae Conwy'n cynnal tîm anableddau integredig. Derbynnir atgyfeiriadau gan y tîm ar gyfer yr unigolyn i'w hasesu yn unol ag anghenion cefnogaeth / tai, ac mae'r asesiadau yn ystyried y meini prawf cymhwyso ar gyfer cymorth gan wasanaethau cymdeithasol statudol, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n debygol o ddisgyn i mewn ac allan o wasanaethau statudol ar adegau anodd neu argyfwng. Mae'r gefnogaeth ychwanegol yn allweddol er mwyn i bobl gynnal ac atgyfnerthu'r sgiliau byw annibynnol y maent wedi'u derbyn i fyw fel dinasyddion cyfartal yn y gymuned ac atal argyfwng digartrefedd. |

## Iechyd meddwl

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Tai Gogledd Cymru –** Darpariaeth Iechyd Meddwl | Llety â Chymorth | Mae'r gwasanaeth llety â chymorth hwn yn cael ei ddarparu i gleientiaid sy'n gwella neu'n dioddef o broblem iechyd meddwl hirdymor. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau statudol a di-dâl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl er mwyn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i helpu i gynnal llety. .<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl |
| **Adferiad –** Darpariaeth Iechyd Meddwl | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Darparu Gwasanaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai ar gyfer cleientiaid ag anghenion Iechyd Meddwl.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl |
| KMI St Winfreds – Iechyd Meddwl | Llety â Chymorth | Mae'r gwasanaeth yn darparu unedau o lety â chymorth a rennir, lle mae'r landlord/staff yn darparu cymorth. Mae'n rhaid i unigolion ar gyfer y gwasanaeth hwn fod yn 18 a hŷn.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |

## Materion Troseddu

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Nacro** | Llety â Chymorth a Chefnogaeth yn ôl yr Angen | Y Grŵp cleient pennaf yw troseddwyr neu'r sawl sydd mewn perygl o droseddu, defnyddwyr gwasanaeth sy'n ddiamddiffyn, i gael cefnogaeth o ran llety, yn ogystal â thai pellach unwaith maent yn barod i symud ymlaen.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |
| **Nacro** - Atal Digartrefedd | Gwasanaethau atal digartrefedd | Gwasanaeth gwybodaeth a chyngor yn gweithio gyda landlordiaid, teuluoedd ac unigolion i atal digartrefedd. |
| **Tai Gogledd Cymru** | Llety â Chymorth a Chefnogaeth yn ôl yr Angen | Gwasanaeth Cymorth Cysylltiedig â Thai gyda llety â chymorth CAS 3 pwrpasol ar gyfer merched sy'n gadael carchar a chymorth yn ôl yr angen i rai 18 oed a hŷn. |
| **Adferiad Bodhyfryd –** Dynion Sy'n Gadael y Carchar | Llety â Chymorth Argyfwng Tymor Byr | Prosiect tymor byr ar gyfer Dynion yn unig sy'n gadael Carchar |
| **CBSC - Swyddog Cyswllt Carchardai** | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Cefnogi'r llwybr ar gyfer gadawyr carchar ar gyfer dynion a merched sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. |

## Anableddau Corfforol / Nam ar y Synhwyrau

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br><br>**Tîm Anableddau Integredig** (Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol/Nam ar y Synhwyrau) | Llety â Chymorth a Chefnogaeth yn ôl yr Angen | Darperir cefnogaeth o ran llety yn ôl yr angen i bobl ddiamddiffyn gydag anabledd corfforol yn eu cartrefi eu hunain gan ystod o ddarparwyr. Mae'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw mor annibynnol â phosibl yn y gymuned, yn cynorthwyo unigolion i gynnal eu tenantiaethau / cartrefi ac atal y posibilrwydd o gael eu derbyn i ofal preswyl. |

## Materion mewn perthynas â Chamddefnyddio Sylweddau

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Adferiad** | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Mae hwn yn becyn cefnogaeth yn ôl yr angen cyfannol gan gynnwys cefnogaeth yn ymwneud â thai a nodir drwy asesiad a chynllunio cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ar adegau i ddiwallu'r anghenion unigol. Nod y prosiect yw cynnig cefnogaeth i unigolion sy'n byw yn Sir Conwy sy'n cyflwyno eu hunain fel unigolion digartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref a chanddynt hanes o gamddefnyddio sylweddau.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |
| **The Wallich** – Doorstop | Llety â Chymorth a Chefnogaeth yn ôl yr Angen | Mae prosiect Doorstop yn darparu cefnogaeth yn ymwneud â thai dros dro i bobl gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'u dibyniaeth ac angen cefnogaeth i gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Mae gan y prosiect 6 uned tai dros dro a ddarperir gan Tai Gogledd Cymru a bydd yn cynorthwyo unigolion i symud ymlaen i lety parhaol ar ôl iddynt gwblhau rhaglen o gefnogaeth.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |
| **Cymdeithas Tai Clwyd Alyn** - Norfolk House | Llety â Chymorth | Prosiect llety yn seiliedig ar dai â chymorth mawr sy'n gweithio gydag unigolion sy'n mynd i'r afael â'u digartrefedd a gweithio tuag at ymatal rhag defnyddio sylweddau. Llofftydd sengl gyda chyfleusterau en-suite a chyfleusterau anabl.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |

## Pobl Ifanc Diamddiffyn

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Stori** – Prosiect Pobl Ifanc | Llety â Chymorth a Chefnogaeth yn ôl yr Angen | Llety â chymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen ar gyfer merched ifanc 16 oed a hŷn.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |

| | | |
|---|---|---|
| **Stori** – Prosiect Belgrave | Llety â Chymorth | Llety â chymorth ar gyfer pobl ifanc sengl rhwng 16 a 24 mlwydd oed, sydd angen cefnogaeth<br><br>Mae'r Prosiect yn cynnig lleoliad 24 awr i bobl ifanc sydd angen cymorth a chefnogaeth ynghylch eu hanghenion dynodedig gan gynyddu eu hannibyniaeth o ran rheolaeth eiddo eu hunain.<br><br>Mae cyfradd rhent ar gyfer yr eiddo yn gyfradd Lwfans Tai Lleol o ganlyniad bydd y prosiect hwn ar gyfer y sawl sy'n agosach i'r farchnad swyddi / eisoes yn gweithio neu yn y coleg. |
| **Cymdeithas Tai Clwyd Alyn** – Isallt a Symud Ymlaen | Llety â Chymorth a Symud Ymlaen / cefnogaeth yn ôl yr angen | Llety â Chymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen (symud ymlaen).<br>Nod Isallt yw darparu cefnogaeth i bobl sengl rhwng 16 i 25 oed, sydd wedi profi digartrefedd neu byddant mewn perygl o ddigartrefedd heb lety dros dro. Mae hyn yn cynnwys y sawl sy'n ddiamddiffyn, sydd angen cefnogaeth yn ogystal â phobl ifanc sy'n gadael gofal.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |
| **Tros Gynnal Plant** - Tîm o amgylch tenantiaeth | | Darpariaeth cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n ddigartref. Bydd atgyfeiriadau i'r gwasanaeth hwn yn cael ei dderbyn i Swyddog Atal Digartrefedd CBSC – Pobl Ifanc.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl ifanc i gynyddu'r sgiliau, gwybodaeth a rhwydweithiau cefnogaeth sydd eu hangen arnynt i aros yn eu cartref a/neu ddiogelu cartref nawr ac yn y dyfodol.<br><br>Cynigion Allweddol:<br>• Adfocatiaeth Tai<br>• Mentora gyda'r nod o integreiddio pobl ifanc i wasanaethau a gweithgareddau lleol Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teuluol sy'n defnyddio dulliau arferol, gan gynnwys teulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol i siarad, cynllunio a gwneud penderfyniadau.<br>• Cwnsela<br>• Adfer anghydfodau gyda landlordiaid neu gymdogion<br>• Ymyraethau rhesymol eraill fel a nodwyd gan y person ifanc |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Tîm Ymyriadau Teuluol** | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Cynigir y gwasanaeth hwn i deuluoedd a atgyfeiriwyd gan y Gwasanaethau Plant er mwyn rhoi cymorth i gleientiaid fyw'n annibynnol yn y gymuned a symud ymlaen i lety annibynnol, ac i helpu cleientiaid i ddatblygu sgiliau byw er mwyn cyflawni amcanion o fewn eu cynllun cymorth. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu ledled y Fwrdeistref Sirol ac yng nghartref y cleient os bydd hynny'n bosib, neu mewn lleoliad sy'n addas i'r cleient a'r staff. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Ymgynghorwyr Personol** | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Mae Ymgynghorwyr Personol yn cefnogi pobl ifanc 16+ sydd mewn cyfnod pontio i wasanaethau oedolion. Mae unigolion yn cael eu cefnogi i gaffael a chynnal eu llety, ac i wella eu sgiliau bywyd annibynnol, yn ddibynnol ar eu hanghenion personol. |
| **The Bell –** Pobl ifanc ddigartref | Llety Argyfwng â Chymorth | Darparu cymorth tymor byr i bobl ifanc ddigartref 16+ oed<br><br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |
| **Grŵp Cynefin** - Byw yn Annibynnol | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Gwybodaeth a chyngor ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd |
| **CBSC** – Swyddog Cyswllt Pobl Ifanc | Cyngor a Chymorth | Cefnogaeth i bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. |

## Pobl Hŷn Diamddiffyn

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Cartrefi Conwy** – Gwasanaeth Byw'n Annibynnol | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Mae Cartrefi Conwy yn byw gyda thenantiaid dros 55 mlwydd oed, neu'r sawl â lefel uchel o angen, ac efallai sydd angen help llaw gyda byw yn annibynnol yn eu cartrefi. Mae ganddynt dîm o Gydlynwyr Byw'n Annibynnol a all eich helpu gyda:<br><br>▪ Gofal, cefnogaeth ac arweiniad<br>▪ Adrodd atgyfeiriadau a materion yn ymwneud â thai<br>▪ Rheoli gwaith papur a gohebiaeth pwysig<br>▪ Trefnu mynediad a help proffesiynol i wasanaethau eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | | ▪ Cefnogi a hyrwyddo bywyd cymdeithasol egnïol<br>▪ Cadw'n ddiogel yn eich cartref<br><br>Derbynnir hunan-atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn 55 oed a hŷn. |
| **Cymdeithas Tai Clwyd Alyn** – Gwasanaeth Warden | Llety Â Chymorth – Gwasanaeth Warden | 1 ystafell wely hunangynhwysol ar gyfer 1-2 o bobl dros 55 oed / Teleofal gyda warden, cefnogaeth lefel isel o fewn tai lloches. Derbynnir hunan-atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn 55 oed a hŷn. |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br><br>**Tîm Pobl Hŷn -** Ailalluogi | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl a fyddai'n elwa o wasanaeth sy'n canolbwyntio ar ailalluogi yn y tymor byr i adfer eu hannibyniaeth. Enghreifftiau o mathau o bobl sy'n cael mynediad i, neu'n cael eu atgyfeirio i'r gwasanaeth, gan gynnwys:- oedolion yn gadael yr ysbyty; oedolion sydd angen ymyraethau brys i'w hatal rhag mynd i'r<br>Ysbyty, defnyddwyr gwasanaeth presennol gyda pecyn sefydledig o ofal, ond mae eu ail asesiad yn nodi'r posibilrwydd o ailalluogi, oedolion sy'n anhysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar bwynt y atgyfeiriad. |
| **Tai Gogledd Cymru** - Gwasanaeth Warden | Llety Â Chymorth - Gwasanaeth Warden | Cyfleuster Tai Gwarchod i denantiaid dros 55 mlwydd oed, gan ddarparu llety hunangynhwysol gyda gwasanaeth warden a warden ar alwad. Mae pobl hŷn yn cael mynediad at dai a gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion ac yn hyrwyddo annibyniaeth. |

## Cyffredinol

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **KMI Cyf** | Llety â Chymorth | Unedau o lety â chymorth gan gynnwys llety a rennir, fflatiau a thai lle bo'r landlord/staff yn darparu cefnogaeth.<br>Mae'n rhaid i unigolion ar gyfer y gwasanaeth hwn fod yn 16 a hŷn.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cartrefi Conwy** – Cefnogaeth i Denantiaid | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Darpariaeth gwasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen i denantiaid Cartrefi Conwy, yn ogystal ag unigolion mewn llety nad yw'n gysylltiedig â Chatrefi, sy'n ddiamddiffyn, a chanddynt ystod eang o anghenion. Dylid gwneud drwy'r Llwybr Sengl. |
| **Cymdeithas Tai Clwyd Alyn** – Cymorth i Denantiaid | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Darpariaeth cefnogaeth yn ôl yr angen i bobl yn eu llety eu hunain a'r sawl sy'n barod i fynd i'w llety eu hunain, sy'n ddiamddiffyn a chanddynt ystod eang o anghenion.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |
| **Tai Gogledd Cymru** – Ar wasgar | Llety â Chymorth / Cefnogaeth yn ôl yr Angen | Darpariaeth cefnogaeth ar draws eiddo Tai Gogledd Cymru yng Nghonwy ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth tai â chymorth a thenantiaid sydd ag anghenion cyffredinol. Mae'r gefnogaeth ar gael i ddynion a merched gydag ystod o anghenion cefnogaeth a chefndiroedd. Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl, ond gellir ei dderbyn yn uniongyrchol gan Dai Gogledd Cymru. |
| **Nacro** – Gwasanaeth Adsefydlu Conwy | Cefnogaeth yn ôl yr angen | Cefnogaeth Yn ôll yr Angen i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n ddiamddiffyn, ac yn profi anhawster o ran cael mynediad i lety addas. Dylid anfon atgyfeiriadau am y gwasanaeth hwn drwy'r Llwybr Sengl. |

## Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad

| Darparwr | Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Cyngor ar Bopeth** | Cyngor annibynnol ar ddyledion ac arian | Gwasanaeth cynghori i unrhyw un sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd |
| **CBSC** - Hawliau Lles | Cyngor Budd-daliadau | Gwasanaeth cynghori i unrhyw un sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd |
| **Canolbwynt Cyflogaeth CBSC** | Cefnogaeth gyda Chyflogaeth | Cefnogaeth i unrhyw un sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd<br><br>Atgyfeiriadau trwy'r llwybr |
| **Cartrefi Conwy** – Cynhwysiant Ariannol | Tîm Rheoli Arian | Cefnogaeth i Denantiaid Cartrefi Conwy am gyngor ariannol |